



# GWEITHDREFN GWYNO MENTER BRO OGWR

## Menter Bro Ogwr

Tŷ'r Ysgol, Pen yr Ysgol, Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr, CF34 9YE | 01656 732200 | Rhif Symudol | [menter@broogwr.org](mailto:menter@broogwr.org)

 [menterbroogwr / siopyrhenbont](https://www.facebook.com/menterbroogwr)

 [@menterbroogwr / @SiopyrHenBont](https://twitter.com/menterbroogwr)

 [www.menterbroogwr.org](http://www.menterbroogwr.org)



**Mentrau  
Iaith  
Cymru**

**CYMRAG**



**DEFNYDDIWCH  
EICH CYMRAEG!  
USE YOUR WELSH!**

## 1. YNGLŶN Â'R WEITHDREFN HON

1.1 Mae modd datrys y rhan fwyaf o gwynion yn gyflym ac yn anffurfiol drwy drafod gyda'r Prif Swyddog. Os nad yw hyn yn datrys y broblem, dylech ddilyn y weithdrefn ffurfiol sydd wedi'i nodi isod.

1.2 Mae'r polisi hwn ond yn berthnasol i gyflogeion a gweithwyr.

## 2. CAM 1: CWYN YSGRIFENEDIG

2.1 Dylech nodi eich cwyn yn ysgrifenedig a'i chyflwyno i'r Prif Swyddog. Os yw eich cwyn yn ymwneud â'r Prif Swyddog, gallwch ei chyflwyno i aelod o'r Bwrdd.

2.2 Dylai'r gwyn ysgrifenedig nodi natur y gwyn, gan gynnwys unrhyw ffeithiau perthnasol, dyddiadau ac enwau unigolion sy'n ymwneud â hi fel y gallwn ymchwilio iddi.

## 3. CAM 2: CYFARFOD

3.1 Byddwn yn trefnu cyfarfod i drafod y gŵyn, fel arfer o fewn 10 diwrnod i dderbyn eich cwyn ysgrifenedig. Dylech wneud pob ymdrech i ddod i'r cyfarfod.

3.2 Cewch ddod â chyfaill gyda chi i'r cyfarfod i drafod y gŵyn os gwnewch gais rhesymol o flaen llaw gan roi gwybod i ni enw'r person a fydd yn dod gyda chi. Gall y cymar fod yn gydweithiwr, a fydd yn cael amser rhesymol i ffwrdd o'r gwaith â thâl am fod yn gwmni i chi.

3.3 Os na fydd modd i chi neu eich cyfaill ddod i'r cyfarfod ar yr amser a nodwyd, dylech roi gwybod i ni mor fuan â phosibl a byddwn yn ceisio, o fewn rheswm, i gytuno ar amser arall.

3.4 Gallwn ohirio'r cyfarfod os bydd angen cynnal ymchwiliadau pellach, ac ar ôl hynny bydd y cyfarfod fel arfer yn ail ymgynnull.

3.5 Byddwn yn ysgrifennu atoch, fel arfer o fewn 10 diwrnod i ddyddiad y cyfarfod i drafod y gŵyn diwethaf, i gadarnhau ein penderfyniad ac i'ch hysbysu o unrhyw gamau pellach y bwriadwn eu cymryd i ddatrys y gŵyn. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i chi am eich hawl i apelio.

### Menter Bro Ogwr

Tŷ'r Ysgol, Pen yr Ysgol, Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr, CF34 9YE | 01656 732200 | Rhif Symudol | [menter@broogwr.org](mailto:menter@broogwr.org)

 [menterbroogwr / siopyrhenbont](https://www.facebook.com/menterbroogwr/)

 [@menterbroogwr / @SiopyrHenBont](https://twitter.com/menterbroogwr)

 [www.menterbroogwr.org](http://www.menterbroogwr.org)



Arms of the  
Llywodraeth Cymru  
Funded by  
Welsh Government

**Mentrau  
Iaith  
Cymru**

**CYMRAG**



**DEFNYDDIWCH  
EICH CYMRAEG!  
USE YOUR WELSH!**

#### 4. CAM 3: APELIADAU

- 4.1 Os na fydd y gŵyn wedi'i datrys yn foddhaol yn eich barn chi, gallwch apelio yn ysgrifenedig i aelod o'r Bwrdd, gan nodi eich rhesymau yn llawn dros apelio, o fewn wythnos i'r dyddiad y cafodd y penderfyniad ei anfon atoch neu ei roi i chi.
- 4.2 Byddwn yn cynnal cyfarfod apelio, fel arfer o fewn pythefnos i dderbyn yr apêl. Bydd rhywun diduedd yn delio â'r achos - rhywun sydd heb fod yn rhan o'r achos yn flaenorol. Cewch ddod â chyfaill gyda chi.
- 4.3 Byddwn yn cadarnhau ein penderfyniad terfynol yn ysgrifenedig, a hynny fel arfer o fewn 10 diwrnod i ddyddiad y gwrandawriad apêl. Nid oes hawl bellach gennych i apelio.

Mae'r polisi yma yn cael ei adolygu yn flynyddol gan y Pwyllgor Rheoli

Adolygydd a chytunwyd gan Fwrdd Rheoli Menter Bro Ogwr ar 9 Medi 2020

Adolygir y Polisi yma nesaf 7 Medi 2021

#### Menter Bro Ogwr

Tŷ'r Ysgol, Pen yr Ysgol, Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr, CF34 9YE | 01656 732200 | Rhif Symudol | [menter@broogwr.org](mailto:menter@broogwr.org)

 [menterbroogwr / siopyrhenbont](https://www.facebook.com/menterbroogwr)

 [@menterbroogwr / @SiopyrHenBont](https://twitter.com/menterbroogwr)

 [www.menterbroogwr.org](http://www.menterbroogwr.org)



**Mentrau  
Iaith  
Cymru**

**CYMRAG**



**DEFNYDDIWCH  
EICH CYMRAEG!  
USE YOUR WELSH!**